

Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Tasgau Cyfoethog

Ardal: Ardal Leol/Traeth Amcan Dysgu: Casglu sbwriel a chymharu data o wahanol leoliadau	Grŵp Blwyddyn y CC: Blynyddoedd 3 a 4
Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd Rhaglen Astudio Mathemateg Datblygu Ymresymu Rhifyddol Adnabod prosesau a chysylltiadau <ul style="list-style-type: none">Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dyddAdnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiadDewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddioDewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol Cynrychioli a chyfathrebu <ul style="list-style-type: none">Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategolMireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynnyDefnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodolDewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas Adolygu <ul style="list-style-type: none">Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrolDefnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol Defnyddio sgiliau mesur <ul style="list-style-type: none">Defnyddio cloriannau â rhaniadau i bwysu gwrthrychau i'r 5g, 10g, 25g neu'r 100g agosaf Defnyddio sgiliau data <ul style="list-style-type: none">Cyflwyno data drwy ddefnyddio:<ul style="list-style-type: none">Rhestrau syml, siartiau cyfrif, tablau a diagramauSiartiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10Pictogramau lle bydd un uned yn cynrychioli mwy nag un gwrthrych drwy ddefnyddio allwedd symlDiagramau Venn a CarrollEchdynnu a dehongli gwybodaeth o siartiau syml, amserlenni, diagramau a graffiau	
Pennawd/Addas i blant Faint o sbwriel sydd yn ein hamgylchedd lleol? Pa fath o sbwriel sydd yno? Sut gallwn ni gael gwybod?	
Meini Prawf Llwyddiant	

- Casglu a chofnodi data sy'n gysylltiedig â sbwriel
- Cyflwyno data gan ddefnyddio cymhwysedd digidol
- Cwestiynu a dehongli canlyniadau
- Mynegi barn am y pwnc

Beth i'w wneud:

Dylech fynd i gasglu sbwriel yn y lleoliad a ddewiswyd ganddoch. Dylai'r plant weithio mewn grwpiau bach, pob un â rôl benodol. Bydd un plentyn â'r teclyn codi sbwriel, un â'r bag ac un â chlipfwrdd gyda siart cofnodi arno. Trwy gydol y gweithgaredd, dylai'r plant gael eu hannog i rannu a newid rolau.

Dylai'r plant gofnodi'r math o sbwriel sy'n cael ei gasglu ar ffurf siart cyfrif. Mae cynnal sesiynau casglu sbwriel mewn dau leoliad ar wahân yn syniad da er mwyn cael digon o ddata i gymharu a chyferbynnu. Er enghraifft, bydd casglu sbwriel o faes parcio ac o draeth yn rhoi data am sbwriel môr.

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol:

- Pwyswch gyfanswm y sbwriel sydd wedi'i gasglu. Gellir gwneud hyn ar gyfer y ddau leoliad. Didolwch y sbwriel yn ôl math, e.e. plastig, papur ac ati gan ddefnyddio diagramau Venn a Carroll.
- Darganfyddwch ffracsiynau cyfanswm y sbwriel yn ôl rhannau o'r rhif cyfan, e.e. mae $\frac{1}{4}$ yn blastig, ac ati
- Defnyddiwch Excel i fewnbynnu gwybodaeth er mwyn creu gwahanol fathau o siartiau a graffiau wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10
- Crëwch gwestiynau, e.e. Pam roedd rhai mathau o sbwriel i'w gweld yn amlach na mathau eraill, yn eich barn chi? Cysylltwch gwestiynau â deunyddiau diraddiadwy a deunyddiau nad ydynt yn ddiraddiadwy
- Ymchwiliwch i faint o amser mae'n ei gymryd i eitemau ddadelfennu
- Crëwch Wordle/Ffeithlun o'r wybodaeth a gasglwyd gan y plant
- Chwiliwch am ddata gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol ar y mathau o sbwriel sy'n cael eu casglu yn ystod y *Great British Beach Clean*. Cymharwch hwn â'r data y mae'r plant wedi'i gasglu. Crëwch graffiau data cymharol.
- Anogwch nhw i ymchwilio i broblemau sbwriel/sbwriel môr yn lleol ac yn fyd-eang

Adnoddau ar gyfer yr awyr agored:

Taflen gofnodi yn cynnwys mathau o sbwriel (e.e. bonion sigarét, pacedi creision, ac ati)

Teclynnau codi sbwriel

Clipfyrddau

Pensiliau

Bagiau sbwriel

Menig tafladwy

Siacedi llachar

Adnoddau yn y dosbarth:

Excel

Cloriannau

Cysylltiad â'r rhyngrwyd

iPad/Cyfrifiadur

Cysylltiadau cwricwlaidd:

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Daearyddiaeth
Addysg grefyddol
Gwyddoniaeth
Addysg gorfforol
Llythrennedd
Mathemateg

